

**Cofnodion Cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Rhagfyr
20fed 2017 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 20th
December 2017 at 7.30pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd/*Chairperson*), Maldwyn Williams, Barbara Williams, Alwena Roberts, Geraint Parry (Clerc/*Clerk*) a Cyng. Alun Roberts.

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Myrddin Roberts, Lorna Williams, Hanna Elin Baguley a Miriam Williams

Nodyn / Note – Gadawodd Cyng. Alun Roberts y cyfarfod am 20:20 / *Clr. A Roberts left the meeting at 20:20*

3. Datgan Ddiddordeb/Declaration of interest

- Eitem / *Item 11.0* - Cyng. Alwena Roberts yn datgan diddordeb oherwydd ei bod yn Trysorydd Eglwys / *Clr. Alwena Roberts declared an interest in that she is a Treasurer of the Church*
- Eitem / *Item 8.0* – Cyng. Rhian Hughes yn datgan diddordeb oherwydd bod yn aelod o Pwyllgor y Neuadd / *Clr. R Hughes declared an interest because she is a member of the Village Hall committee.*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Dachwedd fel rhai cywir gan Alwena Roberts, eilwyd gan Barbara Williams / *Minutes of the previous meeting held on 15th November were accepted as accurate by Alwena Roberts, seconded by Barbara Williams.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Diffibrilwyr / Defibrillator** – Cyng. R Hughes wedi trafod y cabinet gyda Gwasanaeth Ambiwlaens Cymru / *Clr. R Hughes has discussed the cabinet with the Welsh Ambulance Service*
- 5.2 **Lôn Hafoty a thyllau ar lonydd lleol / Hafoty Road and holes on local roads** – gofynwyd i Cyng. Alun Roberts godi'r mater o graeanu ffordd Hafoty eto. Oedd damwain ar y ffordd yma ar 8/12/17 oherwydd y rhew du / *Requested that Clr Alun Roberts again raise the matter of gritting Hafoty road. An accident occurred on this road on 8/12/17 due to the black ice*
- 5.3 **Llwybr Tai Bach / Tai Bach Footpath** - Ceisiodd y Cyngor Sir gyflwyno llwyth o gerrig i roi ar y llwybr ond yn anffodus canslodd perchennog y Dorlan y trefniant i adael y cerrig ger y fynedfa i'r padog / *The County Council attempted to deliver a load of stones to put on the path but unfortunately the owner of the Dorlan cancelled the arrangement to dump the stones near the entrance to the paddock.*

6. Adroddiad gan y Cyngorwyr Sir/Report by the County Councillor

- 6.1 Codwyd pryder ynghylch cyflwr ffyrdd lleol yn yr ardal. Esboniodd Cyng. A Roberts fod hyn i lawr i doriadau parhaus yn y gyllideb. Awgrymodd Cyng. R Hughes fod angen ymagwedd gydlynus arnom gyda'r Cyngor Cymuned a Thref leol er mwyn gofyn i'r Cyngor Sir pa gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd / *Concern was raised regarding the condition of local roads in the area. Clr. A Roberts explained that this was down to continuing cuts in the budget. Clr R Hughes suggested that we need a coordinated approach with local Community and Town Councils in order to ask the County Council what plans they have in place for road maintenance.*
- 6.2 Gyda'r farn bellach i gau Ysgol Biwmares, amcangyfrifwyd mai dim ond 52 o blant fydd yn mynychu Ysgol Llangoed yn 2022 / *With the view now to close Beaumaris School, it was estimated that there would be only 52 children attending Llangoed School in 2022.*
- 6.3 Cynllun Gofal Ychwanegol - trefnwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Bentref Llangoed ar 15/01/18 am 6 o'r gloch / *Extra Care Scheme - a public meeting has been arranged at Llangoed Village Hall on 15/01/18 at 6pm*
- 6.4 Treth Gyngor – mae ffigyrau o Gaerdydd yn aneglur ar y bryd / *Council Tax - figures from Cardiff are currently unclear*
- 6.5 Trafodwyd y safon wael iawn o dorri'r gwrychoedd sy'n digwydd. Rhaid i hyn fod lawr i'r arian sy'n cael ei dalu i'r contractwr / *Discussed the very poor standard of hedge cutting that takes place. This must be down to the amount of money that is paid to the contractor.*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

Er gwybodaeth / Information – 22C158C – Brynteg Newydd - cais llawn ar gyfer codi modurdy – wedi ei caniatáu / *Full application for the erection of a garage has been granted*

8. Hen Ysgol / Old School

8.1 Cyng. R Hughes yn adrodd bod materion yn symud ymlaen gyda'r Cyngor Sir. Mae cyfreithiwr wedi'i benodi ac mae cais cynllunio i'w gyflwyno / *Clr. R Hughes reported that matters are moving ahead with the County Council. A solicitor has been appointed and a planning application is to be submitted.*

9. Tir Comin/Common Land

9.1 Tir Comin ger 1 Pensarn / *Common Land by 1 Pensarn* - dim newyddion pellach / *No further information*

9.2 Tir comin ger Tre Gof / *Common land by Tre Gof* - Clerc wedi trafod y mater o gael gwared â'r cerrig gyda chontractwr, yn disgwyl dyfynbris. / *Clerk has discussed the matter of removing the stones with a contractor, awaiting quote.*

9.3 Mae'r cwmni Hogans yn ymddiheuro am beidio â mynychu'r gwaith, ond mae wedi ymweld â'r safle gyda swyddogion o'r adran Priffyrdd lle y gobeithir y gellir gwneud y gwaith cyn diwedd mis Chwefror / *The Hogans company apologise for not attending to the work, but have visited the site with officials from the Highways department where it is hoped the work can be done before the end of February*

9.4 Amlinellodd y Cadeirydd yr angen i greu polisi ynglŷn â'r hawddfrait dros dir comin er mwyn bod yn gyson / *Chairperson outlined the need to create a policy regarding the easement over common land in order to be consistent.*

10. Mynwentydd Lleol / Local Cemeteries

Yn dilyn y penderfyniad i hysbysebu gwaith cynnal a chadw'r fynwent newydd, derbyniwyd cais gan Pwyllgor yr Eglwys yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cymryd cyfrifoldeb dros dalu am gynnal a chadw'r mynwentydd lleol? Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith er mwyn ystyried y gost ychwanegol i'r Cyngor Cymuned / *Following the decision to advertise the maintenance of the New Cemetery, a request has been received from the Church committee asking if the Community Council would consider taking over the responsibility of paying for the maintenance of the local cemeteries? Following discussion, it was decided to obtain quotes for the work in order to consider the additional cost to the Community Council.*

11. Cyfrifon/Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Gynnal a chadw mynwentydd St Dona ac St Iestyn (Section 137) / *Maintenance of St Dona and St Iestyn cemeteries - £550*
- Rhodd Clwb Ffermwyr Ifanc Llanddona (Section 137) / *Llanddona Young Farmers - £150.00*
- Cyflog / Salary - £389.62
- HMRC - £90.00
- Dwr Cymru – mynwent newydd / *Welsh Water – new cemetery - £8.33*

Incwm / Income

- Praesept / *Precept - £1,716.66*

12. Gohebiaeth/Correspondence

- E-bost / e-mail – E Madine
- E-bost / e-mail - Hogans
- Llythyr / Letter – E Evans Y Dorlan
- E-bost / e-mail Carwyn Jones – drych
- Apel / Appeal – Dawns i Pawb

13. UFA/AOB:

13.1 Yn dilyn y tywydd gwael diweddar, Cyng. B Williams yn adrodd bod twll mawr wedi ymddangos yn y ffordd gyferbyn a Neuadd Pentre / *Following the recent poor weather, Clr B Williams reports that a large hole has appeared in the road opposite the Village Hall*

13.2 Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr E Evans ynghylch y ffens sydd wedi ei godi rhwng Y Dorlan a Ffin y Ffos. Nodwyd hefyd fod cerbyd masnachol yn cael ei barcio'n rheolaidd ar yr ymyl y lon sy'n ymlacio ar y ffordd gul. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach gyda'r Cyngor Sir / *Received information from Mr E Evans regarding the erection of a fence between Y Dorlan and Ffin y Ffos. I was also pointed out that a commercial vehicle is routinely parked on the verge*

which encroaches on the narrow road. It was decided to discuss the matter further with the County Council.

- 13.3 Clerc yn adrodd yr angen i drafod praesept flynyddol ar gyfer 2018/19 yn ystod ein cyfarfod nesaf. Er mwyn amcangyfrif unrhyw gynnydd yn y praesept, Clerc i gael cost o dorri'r mynwentydd. / *Clerk advised the need to discuss the annual precept for 2018/19 during our next meeting. In order to estimate any increase in the precept, Clerk to obtain cost of mowing the old cemeteries.*
- 13.4 Yn dilyn pryderon gan drigolion lleol, cawsom gais oddiwrth Cyng. Carwyn Jones i godi dau ddrych traffig i gynorthwyo gyrwyr sy'n ymuno a'r briffordd ar ddwy gyffordd, un wrth y gyffordd ger yr hen Ysgol ac un ar y gyffordd ar ffordd Tre Gof - cytunwyd yn unfrydol i'r cais / *Following concerns from local residents, we received a request from Clr. Carwyn Jones to erect two traffic mirrors to assist drivers joining the main road at two junctions, one by the junction by the Old School and one on the junction near Tre Gof - it was unanimously agreed to the request.*
- 13.5 Derbyniwyd cais gan Scottish Power i osod cebl tanddaearol ar draws y ffordd ger Brookfield - dim gwrthwynebiad / *Received a request from Scottish Power to lay an underground cable across the road by Brookfield - no objection.*
- 13.6 Pwysleisiodd y Clerc yr angen i ymateb i'r adolygiad o Gyngor Cymuned a Thref yng Nghymru / *Clerk emphasised the need to respond to the review of Community and Town Council in Wales*
- 13.7 Clerc wedi ymuno cyfarfod Fforwm Cyngor tref a Chymuned 21/11/17 / *Clerk attended the Town and Community Council Forum meeting on 21/11/17 at 7pm in the Council Chamber*
- 13.8 Cyng. R Hughes, B Williams ac M Williams wedi ymuno hyfforddiant Cod Ymddygiad diweddar / *Clr. R Hughes, B Williams and M Williams attended the recent Code of Conduct Training*

14. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:20 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 17/01/18 am 7.30 yn Capel Peniel.

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:20pm. Next meeting to be held on 17/01/18 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Cadeirydd – Rhian Hughes

Dyddiad